

At Weinidogion Cymru,

### Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol Dinas a Sir Abertawe.

|  |  |
|--|--|
| <p>Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithiau teithio llesol</p>  | <p>Paratôdd Dinas a Sir Abertawe Fab Beicio newydd ar gyfer Bae Abertawe, mewn partneriaeth â CBS Castell-nedd Port Talbot a chan ddefnyddio'r data o'r MLIP.</p>  |
| <p>Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig</p>   | <p><b>Y GRONFA TRAFNIDIAETH LEOL</b><br/>Cyflwynwyd ceisiadau i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol i ddarparu tri llwybr cerdded a beicio newydd; sef gerllaw Ffordd Fabian a Ffordd Ddosbarthu'r Morfa yn ogystal â llwybr oddi ar y ffordd o'r enw Glannau Uchaf.</p> <p>Cyflwynwyd y tri llwybr hyn ym mis Mawrth 2016.</p> <p>Cyfanswm hyd y llwybrau newydd yw oddeutu 4km.</p> <p><b>LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU A DIOGELWCH FFYRDD</b><br/>Cyflawnodd Dinas a Sir Abertawe nifer o swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol drwy'r mentrau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Diogelwch Ffyrdd. Dyma hwy:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Hyfforddiant Beicio mewn Ysgolion i'r Safon Genedlaethol.</li><li>• Kerbcraft i wella sgiliau diogelwch ffyrdd plant iau.</li><li>• Gwasanaethau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch ffyrdd ymhlith plant o bob oedran.</li></ul> |
| <p>Costau ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwella llwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.</p> | <p><b>Y GRONFA TRAFNIDIAETH LEOL</b><br/>Llwybr Defnydd a Rennir Ffordd Fabian: £280,000*</p> <p>Ffordd Ddosbarthu'r Morfa: Ni ellir cyflwyno costau unigol oherwydd ei fod yn rhan o gynllun mwy.</p> <p>Llwybr Beicio'r Glannau Uchaf: £252,000</p>  |

|  |  |
|--|--|
|  | <p><b>LLWYBRAU MWY DIOGEL MEWN CYMUNEDAU</b><br/> Prosiect Llwybrau Diogel mewn Cymunedau De Llansamlet - cynllun a gyflwynodd croesfan i gerddwyr a manteision cysylltedd: £246,000</p> <p>Croesfan Puffin Pengelli - £34,000</p> <p><b>ARIANNWYD GAN Y CYNGOR:</b><br/> Parthau 20mya y tu allan i ysgolion: £100,000</p> <p>*Sylwer bod y cynllun hwn hefyd yn cynnwys cyfraniad ariannol gan ddatblygwr lleol.</p> |
|--|--|

Yn ogystal â'r uchod (opsiynol):

|  |             |
|--|-------------|
| <p>Gwario nodweddiadol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan drydydd partion.</p> | <p>Dd/B</p> |
|--|-------------|

Gwybodaeth ychwanegol (opsiynol)

|  |
|--|
|  |
|--|

Cadarnhaf y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi, yn unol â'r arweiniad cyflwyno statudol.

Prif Weithredwr